Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Little Moons Bilingual Pre School**

**Old Guides Hall**
**Bowls Terrace**
**Caerffili**
**CF83 2RD**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/02/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â  Little Moons Bilingual Pre School

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd sesiynol |
| Darparwr cofrestredig | Little Moons Bilingual Pre School |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf ers cofrestru ar 13 Tachwedd 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy, mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.  Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio neu'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhoi pwyslais cryf ar blant yn rheoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac yn edrych ymlaen at fynychu. Mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau drwy ystod o brofiadau chwarae o ansawdd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â staff a phlant eraill, sydd yn gwneud iddynt deimlo'n saff a diogel.

Mae'r staff yn broffesiynol ac â chymwysterau addas ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae’r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn ysgogol ac yn ysgogi dychymyg y plant. Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn mwynhau eu gwaith.

Mae'r gwasanaeth yn groesawgar ac wedi cael ei drefnu’n dda. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn gwrando ar y plant, y rhieni a'r staff, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cynorthwyo'n dda ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad da i gadw eu sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion ar waith. Mae'r rhieni yn ganmoladwy, ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

| Llesiant | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Gwrandewir ar y plant, sy’n gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth neu gefnogaeth os ydynt yn gofyn amdano. Mae'r plant yn ymwybodol o'r arferion dyddiol ac yn gwybod beth i’w ddisgwyl yn ystod y sesiynau. Mae'r plant yn mwynhau’r ystod o weithgareddau ac yn symud o gwmpas yn effeithiol. Maent yn deall nad oes rhaid iddynt ymuno mewn set o weithgareddau ac yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain yn ôl eu dewis. Er enghraifft, dewisodd rhai plant aros tu fewn, yn adeiladu â blociau, yn hytrach na chwarae allan yn yr awyr agored. Mae'r plant yn rhagweld amser byrbryd ac yn gwybod pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo. Mae hyn yn darparu sicrwydd i'w diwrnod ac yn helpu'r plant i ymgartrefu'n hawdd. Fe’u hanogir i leisio eu hoffterau a'u teimladau ar ddiwedd y dydd ac yn ystod amser cylch. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd ar yr amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â’u hoedran a’u cam datblygu. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Roedd un plentyn a oedd yn ansicr yn cael sylw agos gan aelod o staff, a arhosodd gyda'r plentyn i roi cysur a chymorth.

Mae cyfleoedd da iawn i'r plant ar gyfer chwarae dychmygol ac maent yn mwynhau rhannu ystod o weithgareddau chwarae rôl. Mae hyn yn cynnwys gwneud bwyd a diod yn y gornel gartref a ‘mynd â’r babi am dro’ hefyd gyda'u doliau a phramiau. Mae'r plant yn cael ymarfer corff rheolaidd ac awyr iach ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser y maent yn ei dreulio yn chwarae'n egnïol yn yr awyr agored. Maent yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored mewn gardd sydd ag adnoddau da. Mae gweithgareddau chwarae anniben gyda phaent a dŵr yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl. Roedd y plant yn mwynhau’r gweithgareddau o wneud masgiau teigr a mesur reis wedi’i liwio i ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Mae'r plant yn dod o hyd i'w heiddo eu hunain ac yn clirio ar ôl bwyta. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

**Gofal a Datblygiad** **Nid oes angen sgôr**

Mae gan y staff systemau da ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau diogelu yn fanwl ac yn hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn glir am y prosesau sydd i'w dilyn wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mae'r staff yn cadw cofnod o anafiadau sydd eisoes gan y plant ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff yn trefnu ymarferion tân yn rheolaidd ac yn sicrhau bod plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Cofnodir damweiniau a digwyddiadau gan y staff ac mae'r rhain yn cael eu llofnodi gan y rhieni a'u gwerthuso gan yr unigolyn â gofal. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant ar waith ac ar gael i'r holl staff. Rhennir unrhyw newidiadau gan rieni a chaiff cofnodion eu diweddaru.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn ystyriol o anghenion unigol y plant ac mae ganddynt ddisgwyliadau realistig ohonynt. Mae ganddynt ddull cyson ac maent yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion ymddygiad. Mae staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn ymddwyn fel modelau rôl cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn ystod gweithgareddau, ac yn sgwrsio â nhw. Mae hyn yn datblygu ymddiriedaeth a chydberthnasau, ac yn hybu hunanhyder y plant. Mae gweithwyr allweddol yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion a'u profiadau. Mae'r staff yn hyrwyddo trafodaethau agored ac yn gwerthfawrogi syniadau'r plant ynghylch newid gweithgareddau ac adnoddau. Er enghraifft, newidiodd y staff weithgareddau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a oedd wedi cael eu cynllunio pan ddangosodd y plant fwy o ddiddordeb mewn chwarae gyda thortshis ac edrych ar siapau gwydr lliwgar.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol ac yn hwyluso amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae'r staff yn defnyddio arsylwadau i olrhain cynnydd y plant ac i gynllunio canlyniadau penodol. Maent yn gwneud asesiadau cychwynnol ac yn gweithio gyda'r rhieni i gynllunio gweithgareddau sydd yn hyrwyddo datblygiad y plant. Mae gweithwyr allweddol yn sicrhau bod rhieni yn cael gwybodaeth ynglŷn â chynnydd a chyflawniadau eu plant yn rheolaidd. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan y staff yn rheolaidd drwy gydol y sesiynau ac mae'r plant yn dechrau defnyddio Cymraeg gyda hyder.

| Yr Amgylchedd | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae'r gwasanaeth wedi’i leoli mewn adeilad sy’n eiddo i eglwys ar gyrion Caerffili. Mae ganddo ddefnydd o un ystafell fawr, cegin a chyfleusterau toiled addas. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn hygyrch ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae yna ardal chwarae awyr agored fach sydd ag adnoddau da. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae camera fideo ar gael i fonitro mynediad i'r lleoliad. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cynnal cofrestr o’r plant sy’n bresennol ac yn cofnodi’r amserau pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn gadael.  Maent yn sicrhau bod y gymhareb staff yn cael ei chynnal ar bob adeg. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob ardal, sy'n cynnwys diogelwch tân, COVID-19 a holl weithgareddau'r plant. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar gyfnodau rheolaidd gan yr unigolyn â gofal ac mae'r staff yn gwneud gwiriadau bob dydd. Mae'r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth yn cadw cofnodion am yr holl ymwelwyr i'r lleoliad. Yr eglwys sydd yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac am sicrhau bod y gwaith o wasanaethu'r cyfleustodau yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae’r staff yn cwblhau dyletswyddau glanhau a glanweithdra drwy gydol y sesiynau. Mae'r neuadd yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau a llachar i blant eu harchwilio. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu cyrchu'r holl offer yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae offer ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a darganfyddiad. Mae'r cyfleusterau toiled a newid cewynnau yn rhwydd i blant eu defnyddio ac maent yn lân ac yn ffres. Ni chaiff y plant fynd i'r gegin. Bydd y staff yn rhoi'r holl gyfarpar, adnoddau ac arddangosfeydd o waith y plant i gadw ar ddiwedd yr wythnos gan fod yr eglwys yn cael ei defnyddio ar benwythnosau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r ardal hon yn amgaeëdig ac nid yw'r plant yn gallu gadael yr ardal. Mae'r ardal yn ddeniadol ac yn cynnig cyfleoedd da iawn i blant chwarae'n egnïol. Mae'r ardal awyr agored ag adnoddau da iawn. Roedd y plant yn awyddus iawn i reidio'r beiciau a'r ceir o gwmpas yr iard, yn ogystal â defnyddio'r offer dringo bach. Roedd y plant hefyd yn mwynhau chwarae â'r dŵr yn yr hambwrdd Tuff. Mae'r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio’n dda pan maent yn chwarae tu allan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Nid oes angen sgôr

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad ac mae'n darparu darlun cywir o sut mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Mae'r pwyllgor rheoli, sydd yn cynnwys yr unigolyn cyfrifol, yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac yn darparu cymorth da i'r unigolyn â gofal a'i thîm i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n dda bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i hyrwyddo arferion diogel ac yn gosod nodau clir i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant ac yn mwynhau eu gwaith. Mae gwiriadau priodol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant yn cael eu gwneud ar y cyfan cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Cafodd rhai o'r gwiriadau hyn ar waith ar gyfer un unigolyn yn ystod yr arolygiad. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser. Mae aelod o staff wrth gefn dynodedig yn gallu bod yn hyblyg ac ar gael i gyflenwi os bydd angen. Mae'r polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r holl staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol gyda'r unigolyn â gofal. Yn ystod ein trafodaethau, penderfynodd yr unigolyn â gofal drefnu bod y sesiynau hyn yn digwydd yn fwy aml. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn cael adborth ar eu perfformiad a bod ganddynt gyfle i ystyried unrhyw faterion  hyfforddi a datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio. Mae hwn yn ffurfio rhan o'r adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Roeddent yn barod i dderbyn adborth yn ystod yr arolygiad ac i weithredu heb oedi ar faterion y tynnir eu sylw atynt. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er nad oes cwynion wedi cael eu derbyn. Mae partneriaethau gyda'r rhieni yn agos a dywedodd rhieni wrthym eu bod nhw'n hapus iawn gydag ansawdd y gwasanaeth a'u bod yn hyderus i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Mae gan y gwasanaeth hefyd gysylltiadau da â'r awdurdod lleol, sy'n darparu cymorth, cyngor a rhai adnoddau. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod yr holl wybodaeth i gadarnhau addasrwydd y staff ar waith cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 03/03/2022